Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

FARMING connect
cyswllt FFERMIO


DATAFFERM+

CANLLAW CAM WRTH GAM
FARMDATA+


CAM 1 - Mewngofnodi

- Er mwyn cael mynediad i DATAFFERM+ bydd angen i chi fod wedi creu eich cyfrif One Login Gov.uk drwy edrych ar: **https://www.llyw.cymru/mewngofnodi-ar-taliadau-gwledig-cymru-rpw-ar-lein**
- Bydd angen i chi ailgofrestru gyda Cyswllt Ffermio – gallwch wneud hyn drwy Daliadau Gwledig Cymru (RPW) ar-lein, unwaith y bydd gennych gyfrif one login.
- Os yw unigolyn wedi cofrestru fel aelod busnes ar RPW, byddwch yn gallu cael mynediad at DATAFFERM+ yn awtomatig.
- Os yw unigolyn wedi cofrestru fel un nad yw'n aelod o'r busnes, bydd angen i chi ddewis "Caniatâd am fynediad wedi'i addasu" a dewis y blwch DATAFFERM+.


1. Gallwch gael mynediad drwy Cyswllt Ffermio > Tudalen Meincnodi
   Dewis "DATAFFERM+"



2. Cliciwch “Mewngofnodi gyda manylion Gov.uk One Login”




3. Yna “mewngofnodwch” eto



4. Dilynwch y camau i fewngofnodi gyda’ch manylion mewngofnoi GOV.UK One Login Taliadau Gwledig Cymru (RPW).


5. Pan fyddwch yn gweld y sgrin hon, rydych wedi creu eich cyfrif DATAFFERM+ yn llwyddiannus.




6. Dewiswch eich fferm o'r rhestr a chewch eich cyfeirio at y dangosfwrdd.

CAM 2 - Ychwanegu Menter a'i henwi

- Mae angen creu mentrau ar gyfer pob sector a restrir gyda Thaliadau Gwledig Cymru (RPW).
- Efallai bod gennych fwy nag un fenter fesul sector, er enghraifft os oes gennych fwy nag un amrywiaeth o gnydau, os oes gennych fuches fasnachol a phedigri, neu os oes gennych 2 fuches laeth gyda phatrymau lloia gwahanol. Mae creu eich mentrau eich hun yn caniatáu i chi bersonoli'r adnodd i gyd-fynd â'r systemau ar eich fferm.
- Ar ôl i chi fewngofnodi a dewis enw'r CRN/Fferm yr hoffech ddechrau meincnodi arni, gallwch greu mentrau drwy glicio'r botwm '+ Ychwanegu Menter' ar y Dangosfwrdd.





Os nad yw sector sydd ei angen arnoch wedi'i restru mewn print trwm yn y ddewislen, bydd angen i chi adolygu'r sectorau rydych chi wedi'u dewis yn RPW Ar-lein.

Sylwer – ar ôl i chi ychwanegu data at ddangosyddion perfformiad allweddol o fewn menter, ni allwch olygu na dileu'r fenter hon. Bydd yn aros o dan y fferm hyd y gellir ei ragweld er mwyn caniatáu i ddangosyddion perfformiad allweddol gael eu cymharu am fwy nag un flwyddyn.

Felly, gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r gosodiad cywir ar gyfer eich menter i ddechrau..

Dewiswch Sector ar gyfer cymorth wedi'i deilwra:

TIR ÂR

Dylech greu menter ar gyfer pob cnwd gwahanol a dyfir ar y fferm e.e. gwenith y gaeaf, haidd y gwanwyn, neu datws.

1. Dewiswch - Tir Âr o'r rhestr o sectorau
2. Dewiswch eich math o System
3. Dewiswch eich math o Fenter
4. Dewiswch eich amser plannu os yw'n berthnasol
5. Yna enwch y fenter, gan ddewis rhywbeth sy'n dynodi'r fenter yn glir e.e. gwenith y gaeaf neu geirch y gwanwyn

BÎFF

Gallwch greu cynifer o fentrau ag sy'n addas i'ch busnes, os oes gennych fuches Bedigri a buches Fasnachol a'u bod yn cael eu rheoli'n wahanol, yna mae'n synhwyrol creu mentrau ar wahân i ganiatáu meincnodi yn unigol.

1. Dewiswch bîff o'r rhestr o sectorau
2. Dewiswch y math o dir sydd fwyaf priodol i'r fenter benodol
3. Dewiswch y math o system
4. Dewiswch y math o fenter

5. Ar gyfer Buchod Sugno a Gwartheg Stôr, dewiswch y math o frid

   Ar gyfer Buchod Sugno a gwartheg sy'n cael eu pesgi, bydd angen i chi ddewis y math o besgi a'r math o frid.

   Ar gyfer pesgi gwartheg bîff, bydd angen i chi ddewis y math o besgi a'r math o frid. Mae'r dewis o frid ychydig yn wahanol ar gyfer yr anifeiliaid hyn, gan ein bod wedi grwpio'r bridiau sy'n tueddu i gael eu rheoli a pherfformio'n debyg

   Dewiswch y math o frid sy'n ddominyddol yn y fuches, neu sefydlwch fenter ar wahân os yw'r bridiau'n cael eu rheoli'n wahanol

6. Yna enwch y fenter, gan ddewis rhywbeth sy'n diffinio'r fenter yn glir e.e. Gwartheg Sugno'r Hydref

LLAETH

Creu menter sy'n cyd-fynd â'ch busnes. Os oes gennych fwy nag un fuches rydych chi'n ei rheoli ar wahân, yna efallai yr hoffech chi greu mwy nag un fenter o fewn yr adnodd, fel y gallwch chi eu meincnodi ar wahân.

1. Dewiswch Llaeth o'r rhestr o sectorau
2. Dewiswch y math o Dir
3. Dewiswch y math o System
4. Dewiswch y math o Fenter
5. Ar gyfer Buchod, dewiswch y math o loia - os nad oes gennych floc tynn wrth loia, rydym yn awgrymu eich bod yn dosbarthu'r fuches fel buches sy'n lloia drwy'r flwyddyn (AYR).
6. Rhowch enw addas ar y fenter, fel os oes gennych fwy nag un fuches, y gallwch wahaniaethu rhyngddynt yn hawdd e.e. buchod sy'n lloia drwy'r flwyddyn neu fuchod sy'n lloia yn y gwanwyn.

GARDDWRIAETH

Gallwch greu mwy nag un fenter Arddwriaeth os oes angen i chi feincnodi eich cynhyrchiad yn ôl y gwahanol opsiynau.

1. Dewiswch Arddwriaeth o'r rhestr o sectorau
2. Dewiswch y math o System
3. Dewiswch y math o Fenter
4. Rhowch enw ar y fenter yn ôl y gosodiad a ddewiswyd, fel y gallwch nodi pob menter yn glir e.e. cynnyrch bocs llysiau bwytadwy

MOCH

Gallwch greu mwy nag un fenter a allai gynnwys lle mae gennych lwyth o Foch Pesgi, ac eisiau meincnodi pob llwyth ar wahân.

1. Dewiswch - Moch o'r rhestr o sectorau
2. Dewiswch y math o Fenter
3. Dewiswch y math o Loches
4. Dewiswch y math o Frîd
5. Os oes gennych Foch Bridio, dewiswch bwysau diddyfnu eich moch bach
6. Rhowch enw ar y fenter, os oes gennych fwy nag un llwyth neu genfaint o foch bridio, dylech gynnwys enw sy'n eich galluogi i nodi'r grwpiau'n hawdd e.e. Moch sy'n cael eu pesgi ddechrau mis Chwefror 2026.

DOFEDNOD

Am gymorth penodol ar sefydlu eich menter ddofednod a fyddech cystal â dilyn y canllaw ar-wahân ar ddofednod sydd ar gael ar-lein.

DEFAID

Gallwch greu mwy nag un fenter yma os oes gennych ddiadelloedd sy'n cael eu rheoli'n wahanol. Er enghraifft os oes gennych ddiadell fynydd sy'n cael ei rheoli ar wahân i efallai ddiadell bedigri sy'n byw ar lawr gwlad. Bydd meincnodi'r rhain yn unigol yn caniatáu i chi weld a dadansoddi eu perfformiad ar wahân.


1. Dewiswch - Defaid o'r rhestr o sectorau
2. Dewiswch y math o Dir sydd fwyaf priodol i'r fenter benodol nid y fferm gyfan
3. Dewiswch y math o System
4. Dewiswch y Math o Fenter
5. Ar gyfer Mamogiaid Bridio, dewiswch y ffordd mae'r ŵyn yn cael eu gwerthu, y math o Frid a Phwysau Cyfartalog y famog.

   Dewiswch y math o frid sy'n ddominyddol yn y ddiadell, neu sefydlwch fenter ar wahân os yw'r bridiau'n cael eu rheoli'n wahanol.

   Ar gyfer Ŵyn a Brynwyd a Chyplau a Brynwyd, dewiswch y ffordd mae ŵyn yn cael eu gwerthu.
6. Yna rhowch enw ar y fenter, gan ddewis rhywbeth sy'n diffinio'r fenter yn glir e.e. Mamogiaid Pedigri

CAM 3 - Dewis Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA)

- Mae dau fath o DPA neu Ddangosyddion wedi'u hymgorffori yn yr adnodd, y rhai sy'n cyd-fynd â Sector benodol a'r rhai sy'n cwmpasu'r fferm gyfan. Gelwir y rhain yn DPAau y Fferm Gyfan.
- O fewn adran DPA y Fferm Gyfan, mae 3 chategori o DPAau:
  - **Amgylcheddol** – gan gynnwys dangosyddion sy'n ymwneud ag iechyd y pridd, cynefin a choetiroedd.
  - **Trosolwg o'r Fferm** – dyma DPAu ariannol sy'n edrych ar fusnes y fferm yn ei gyfanrwydd.
  - **Porthiant a phori** – mae'r rhain yn cynnwys DPA ar wahanol gynhyrchiant glaswellt, pori ac india-corn
- Gellir dod o hyd i DPAau drwy glicio ar un o'r mentrau neu un o adrannau DPA y Fferm Gyfan ar yr ochr chwith. Yn seiliedig ar osodiad eich menter, bydd DPAau perthnasol yn ymddangos ar y sgrin i chi ddewis ohonynt.



Ystod dyddiadau – ar gyfer pob DPA (ac eithrio'r DPAu ar gyfer dofednod dodwy), bydd y dyddiadau hyn yn flwyddyn galendr sefydlog e.e. 2025, 2026 ac ati.

Pan fyddwch chi'n rhoi data yn y DPAu, cofiwch sicrhau eich bod yn cynnwys data sy'n berthnasol i'r flwyddyn dan sylw.

Yr arfer gorau fyddai casglu'r data o'r un cyfnod bob blwyddyn, e.e. os yw sganio'n digwydd yn ystod mis Rhagfyr 2025/Ionawr 2026, byddech am gasglu'r canlyniadau yn y flwyddyn 2025 gan ei fod yn ymwneud â'ch perfformiad ŵyna yn 2026 hefyd. Os gwnaethoch chi sganio popeth yn ystod mis Rhagfyr 2026, byddech am roi'r canlyniadau yn y flwyddyn 2027 am yr un rheswm.

Wrth edrych ar DPAau Trosolwg Fferm (sy'n seiliedig ar ddata ariannol o'ch busnes), mae'n haws cymryd ffigurau'r flwyddyn ariannol ddiwethaf felly, o bosib 31 Mawrth, gan y bydd y rhain wedi'u cyfrifo ar eich cyfer chi. Fodd bynnag, mae defnyddio'r un data flwyddyn ar ôl blwyddyn fwyaf buddiol ar gyfer hunan-gymhariaeth.

Statws – mae 3 statws y gallai eich DPAu fod arnynt:

- **Dim data** – mae hyn yn dangos nad ydych wedi nodi unrhyw ddata yn DPA hwn ar gyfer y dyddiadau hyn.
- **Wedi'i gwblhau** – mae hyn yn dangos eich bod wedi ychwanegu data at y DPA ac wedi cael canlyniadau ar gefn eich data a gofnodwyd. Gallwch weld canlyniadau'r DPA, a golygu'r data o'r dudalen canlyniadau os oes angen.
- **Cyflwynwyd i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy Submitted for SFS** – lle mae'r DPA wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i RPW ar gyfer y Cynllun (ni chaiff unrhyw ddata ei anfon at RPW mewn gwirionedd). Ni allwch olygu'r DPAu hyn tan y flwyddyn nesaf.

Camau gweithredu:

- **Ychwanegu data** – cliciwch i ychwanegu data at y DPA
- **Rheoli:**
  - **Gweld** – cliciwch i weld tudalen Canlyniadau'r DPA
  - **Golygu** – cliciwch i olygu'r data a gofnodwyd yn flaenorol yn y DPA
  - **Cyflwyno ar gyfer yr CFC** – cliciwch i Gyflwyno'r DPA ar gyfer yr CFC
- **Gweld** – cliciwch i weld tudalen Canlyniadau'r DPA


CAM 4 - Ychwanegu data at eich dangosyddion perfformiad allweddol (DPA)

Ar ôl i chi ddewis DPA i ychwanegu data ato, cliciwch y botwm "Ychwanegu data" ar yr ochr dde o dan y golofn Camau gweithredu.


Mae gwahanol fathau o sgriniau mewnbynnu data DPA drwy'r offeryn, mae rhai enghreifftiau ar gael isod.

Os byddwch yn cael neges gwall wrth fewnbynnu data, bydd hyn yn aml oherwydd bod y ffigur a gyfrifwyd y tu allan i baramedrau'r DPA. Gwiriwch ddwywaith fod y ffigurau rydych wedi'u nodi yn gywir, ac yn y fformat cywir, er enghraifft hectarau nid erwau, misoedd nid diwrnodau, tunelli nid cilogram ac ati.


- **Mewnbynnu data yn syml gydag un neu fwy o feysydd i fewnbynnu data.** Mae meysydd wedi'u marcio â * yn feysydd gorfodol. Ar ôl i'r data gael ei fewnbynnu, cliciwch ar "Dangos canlyniadau".




- **DPA lle mae opsiwn i fewnbynnu eich ffigur yn uniongyrchol neu gael yr offeryn i'w gyfrifo ar eich rhan.** Wrth ddewis eich opsiwn dewisol, bydd y maes (meysydd) cywir yn ymddangos i chi fewnbynnu data. Yna cliciwch ar "Dangos canlyniadau".




- **DPA sy'n cynnig mwy nag un categori i'w ddewis** e.e. Glaswellt ac india-corn ar gyfer DPA Dwysfwyd a phori, neu Bacwn, porc ar gyfer DPA moch – gallwch ddadansoddi mwy nag 1 eitem o fewn un DPA





- **DPA sy'n benodol i'r cae** – dyma le gallwch ychwanegu data at barseli tir ar eich fferm ar gyfer dangosyddion amgylcheddol gwahanol. Bydd angen ychwanegu parsel o dir newydd yn gyntaf ar y math hwn o DPA.



- Ar ôl i barsel o dir gael ei ychwanegu unwaith, byddwch yn ei ddewis o'r rhestr bresennol o barseli tir mewn dangosyddion perfformiad allweddol yn y dyfodol.

I ychwanegu caeau newydd:



I ddewis caeau presennol:



CAM 5 - Deall Canlyniadau eich dangosyddion perfformiad allweddol (DPA)

Ar ôl i chi fewnbynnu'r holl ddata sydd ei angen ar gyfer DPA, cliciwch "Dangos canlyniadau" i fynd â chi i dudalen ganlyniadau eich DPA.

Mae'r dudalen ganlyniadau'n cynnwys:


- Graffeg a thabl sy'n dangos eich canlyniadau - mae rhai DPA yn rhoi data cymharol safonol y diwydiant i chi sy'n dod o ffynonellau dibynadwy sydd wedi'u manylu ar y sgrin o dan y raffeg. Mae DPA eraill yn syml yn DPA y gallwch eu cymharu eich hunain, lle gallwch gymharu eich ffigurau o un flwyddyn (neu un fenter) i'r llall.
- Eglurhad i'ch helpu i ddeall beth mae'r canlyniadau'n ei ddweud wrthych.
- Dewisiadau cymorth wedi'u teilwra – sy'n cynnig erthyglau, podlediadau, cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a mwy sy'n gysylltiedig â DPA, a all gynorthwyo i wella canlyniadau eich DPA.

Fodd bynnag, nid yw DPA ar eu pen eu hunain yn rhoi'r darlun cyfan, felly mae adolygu gwahanol DPA gyda'i gilydd yn caniatáu i chi greu darlun mwy cyflawn o gryfderau a meysydd i'w gwella yn eich busnes cyfan.

Pan fydd eich canlyniadau ar gyfer dangosydd perfformiad penodol yn cael eu cymharu â ffermydd yn nhraean uchaf y diwydiant sydd efallai â chostau uwch na'r cyfartaledd, bydd eu helw uwch yn gorbwyso'r costau hyn.

Os ydych chi eisiau ceisio rhagor o gymorth yn ymwneud â'r data o'ch DPA, yna gallwch gysylltu â'ch Swyddog Datblygu lleol a all eich arwain ar y camau nesaf addas sydd ar gael drwy Cyswllt Ffermio i wella'ch perfformiad mewn sawl maes allweddol.

Enghraifft o raffeg DPA o fewn yr offeryn:



Os ydych chi'n meddwl eich bod chi wedi mewnbynnu'r data yn anghywir, gallwch chi fynd yn ôl a **Golygu'r data** o'r dudalen ganlyniadau.

Gallwch hefyd **Ddileu'r** data sydd wedi'i fewnbynnu ar gyfer y DPA os ydych chi am ddechrau eto.

Mae gennych hefyd yr opsiynau i **Gyflwyno ar gyfer yr CFC** (gweler y canllaw penodol hwn ar hyn) neu **Argraffu'r** dudalen ganlyniadau.

Ar ôl i chi gyflwyno DPA ar gyfer yr SFS, ni allwch ddiwygio'r data yn y DPA tan y flwyddyn galendr nesaf.

Pan fyddwch wedi cwblhau'r adolygiad o ganlyniad DPA penodol, ac nad ydych am geisio unrhyw gymorth pellach, efallai yr hoffech edrych ar DPA eraill sydd ar gael.

Gallwch gael mynediad at DPA allweddol eraill o fewn eich menter drwy glicio ar y saeth **yn ôl** o dan y logo.



Ar ôl i chi glicio'r botwm hwn, bydd yn mynd â chi yn ôl i'ch menter gan arddangos yr holl DPA sydd ar gael ar gyfer y fenter honno, gan roi'r cyfle i chi ddewis DPA arall a chwblhau ychydig o waith meincnodi pellach.

Os yw'n well gennych symud ymlaen i fenter wahanol neu edrych ar y DPA ar gyfer y Fferm gyfan, yna gallwch gael mynediad at y rhain ar y panel ar yr ochr chwith.

Os oes angen i chi ychwanegu menter newydd, dewiswch y **Dangosfwrdd** ar ochr chwith eich sgrin yn gyntaf, ac yna'r botwm "+ Ychwanegu menter" ar ochr dde sgrin y dangosfwrdd.

CAM 6 - Cyflwyno dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS)

Fel yr amlinellir yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (2026): haen gyffredinol: llyfryn rheolau, mae'n ofynnol i chi gwblhau dau DPA fesul Sector ac un DPA y Fferm gyfan o'r offeryn DATAFFERM+.


Sylwer: Os nad ydych chi'n berchen ar neu'n cadw da byw perthnasol nac yn tyfu cnydau, rhaid i chi gwblhau tri DPA 'Fferm gyfan'.

Unwaith y byddwch wedi cwblhau DPA yn llwyddiannus a'ch bod yn hapus â chywirdeb y canlyniadau a ddangosir, mae gennych yr opsiwn **o gyflwyno'r DPA ar gyfer yr SFS**.


Nodyn atgoffa – ar ôl i DPA gael ei gyflwyno ar gyfer yr SFS ni fyddwch yn gallu golygu'r data tan y flwyddyn galendr ganlynol, felly mae'n bwysig bod y data a ddarperir yn gywir, gan ddarparu cymariaethau defnyddiol yn y blynyddoedd nesaf.

Mae dwy ffordd o gyflwyno DPA ar gyfer yr SFS:


- O dudalen canlyniadau'r DPA – ar ôl i chi fewnbynnu data i mewn i DPA, ar y dudalen ganlyniadau gallwch ddewis Cyflwyno ar gyfer yr SFS o'r ddewislen.




- O'r rhestr DPA diweddar ar y dangosfwrdd neu ar y dudalen Menter, drwy glicio Rheoli a chyflwyno ar gyfer yr SFS o dan y golofn Camau gweithredu yn erbyn y DPA yr hoffech ei gyflwyno ar gyfer yr SFS.



- Pa bynnag lwybr a ddewiswch, ar ôl i chi glicio “Cyflwyno ar gyfer yr SFS” gofynnir i chi gadarnhau eich bod yn hapus â’ch dewis:



Cliciwch ar Cyflwyno a byddwch yn gweld baner werdd yn cadarnhau bod y DPA wedi’i gyflwyno ar gyfer yr SFS:




Ni allwch olygu'r data yn y DPA mwyach tan y flwyddyn galendr nesaf.

Unwaith y byddwch wedi cyflwyno eich DPA cyntaf ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, fe welwch botwm newydd yn ymddangos ar ochr chwith y dangosfwrdd a elwir yn "Fy DPAau ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy".

Ar ôl i chi ddewis hyn, gallwch edrych ar bob DPA rydych wedi'u cyflwyno ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Bydd y rhestr o DPAau a gyflwynir ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn caniatau i chi wirio'ch bod wedi cwblhau a chyflwyno'r isafswm gofynol ar gyfer Gweithred Gyffredinol 3: Meincnodi ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (2x DPA fesul sector a x1 DPA fferm gyfan).



Cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Lleol am ragor o wybodaeth.

Rydym yn croesawu galwadau'n Gymraeg

03456 000 813

llyw.cymru/cyswlltffermio

Sganiwch y cod QR i ddarganfod sut mae meincnodi wedi bod o fudd i ffermwyr Cymru.